

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Mercher 20 Mai 2026
Amser y cyfarfod:	10:30 – 16:05

Amser	Eitem
10:30 (5 munud)	Eitem 1. Agor y cyfarfod <ul style="list-style-type: none">• Croeso• Datganiad Buddiannau• Egluro trefn y cyfarfod <p>Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiannau</p>
10:35 (5 munud)	Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu <p>2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 18 Mawrth</p> <p>2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu Cyhoeddus</p> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu</p>
10:40 (10 munud)	Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd <p>Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd</p>
10:50 (20 munud)	Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr <p>Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr</p> <p>Crynodeb: NODI'r sefyllfa bresennol a diweddarau'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol</p>

Cyfeirnod y papur: 26-05-B01

**11:10
(20 munud)**

Eitem 5. Diweddaru Adroddiad y Pwyllgorau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

- Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – 12 Mai (Llafar)
- Pwyllgor Cyllid – 6 Mai (Llafar)
- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 29 Ebrill (Llafar)
- Pwyllgor Ystad Tir – 7 Mai (Llafar)
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 14 Mai (Ymweliad â'r Safle)

Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, mewnol ac allanol, a chyfarfodydd a gynhaliwyd

**11:30
(15 munud)**

Eitem 6. Adroddiad ar Berfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO yr Adroddiad Perfformiad Cyllid diwedd blwyddyn

Cyfeirnod y papur: 26-05-B02

**11:45
(20 munud)**

Eitem 7. Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Noddwr: Ceri Davies, Prif Weithredwr

Cyflwynwyr: Arweinwyr Amcanion Llesiant; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Perfformiad Cynllun Busnes Chwarter 4.

Cyfeirnod y papur: 26-05-B03

**12:05
(60 munud)**

Cinio

**13:05
(90 munud)**

Eitem 8. Ansawdd Dŵr (Amcan Llesiant 3)

Noddwr: Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Lleoedd a Gwasanaethau

Cyflwynydd: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO

Crynodeb: Y drafodaeth i gynnwys Ansawdd Dŵr, Diweddariad ar Weithredu PR24, a Phapur Gwyrdd

Cyfeirnod y papur: 26-05-B04

14:35
(15 munud)

Egwyl

14:50
(60 munud)

Eitem 9. Cyflwyniad Lle (De-orllewin neu DPAS a Morol)

Noddwr: Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Lleoedd a Gwasanaethau

Cyflwynydd:

Crynodeb:

15:50
(10 munud)

Eitem 10. Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?

Noddwr: Neil Sachdev, Cadeirydd

Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod

16:00
(5 munud)

Eitem 11. Unrhyw fater arall

16:05

Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

Cofnodion o Gamau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Cyfarfodydd Bwrdd Cyhoeddus

Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif paragraff	Noddwr y Papur	Cam gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau / Diweddariadau
6	Cyhoeddus	12/02/2026	6	32	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwas. Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwas. Corfforaethol i drafod gyda Llywodraeth Cymru yr opsiwn i gario cyllid cyfalaf ymrwymedig ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwas. Corfforaethol	19/03/2026	Cwblhawyd	Cytunwyd bod y trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt ac y gellid cau'r cam gweithredu bellach.
11	Cyhoeddus	18/03/2026	8	41	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwas. Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) i anfon y WBO4 drafft at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni	20/05/2026	Cwblhawyd	Wedi cyfarfod ar 28/04/2026

Cyfarfodydd Bwrdd

Rhif y Penderfyniad	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif paragraff	Noddwr y Papur	Penderfyniad
7	Cyhoeddus	12/01/2026	2	8	Dom Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrywyddedu a Chyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau Cenedlaethol	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad ar gyfer Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol
8	Cyhoeddus	12/01/2026	3	10	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwas. Corfforaethol	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y Gyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol
31	Cyhoeddus	18/03/2026	6	29	Rob Bell, Pennaeth Cyllid	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y newid yn y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn i £293m.
32	Cyhoeddus	18/03/2026	7	35	Ceri Davies, Prif Weithredwr	PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd Ddangosfwrdd Perfformiad Ch3.

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mai 2026
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y papur:	26-05-B01
Cyflwynwyd y papur gan:	Ceri Davies, Prif Weithredwr
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

- Wrth i ni gael ein traed danom yn y flwyddyn ariannol newydd, mae'n bleser gennyf groesawu dau aelod newydd i'n Tîm Arweinyddiaeth, a ymunodd â ni ym mis Ebrill. Helen Davies yw ein Pennaeth Pobl; mae hi'n ymuno â ni o'r DVLA, ac mae ganddi brofiad cryf o gefnogi arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol. Mae gan Charlotte Brewster, ein Pennaeth Prosiectau Strategol newydd, dros 20 mlynedd o brofiad mewn rheoli prosiectau, gan gynnwys blynyddoedd lawer ar brosiectau seilwaith a pheirianneg mawr. Mae'r ddwy yn ymuno â ni ar adeg dyngedfennol, wrth i ni fanteisio ar strwythur newydd ein cyfarwyddiaeth a chanolbwyntio ein hymdrechion o ddifrif ar gyflawni ein cynllun corfforaethol.
- I gefnogi hyn, daeth y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth ynghyd yn Aberystwyth yn ystod mis Ebrill, ar gyfer sesiwn ddatblygu a oedd yn canolbwyntio ar ein pedwerydd amcan llesiant newydd, a'r diwylliant a'r ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n ofynnol i gyflawni ein hamcanion corfforaethol yn llwyddiannus. Hwyluswyd y sesiwn i ni gan JAM Consulting, gyda chymorth ein tîm Dysgu a Datblygu, a bu'n gyfle gwych i fyfyrion ar y cyd, cydweithio ac adeiladu tîm.
- Ddiwedd mis Mawrth, cefais fy nghyfarfod chwarterol gyda Matthew Edwards, Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol yn Archwilio Cymru. Trafodwyd canlyniad ein newidiadau diweddar i'r gyfarwyddiaeth, rhai risgiau a materion cyfredol, a rhai sy'n dod i'r amlwg. Roeddwn i hefyd yn falch o lofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi ei ddiweddarau gydag Awdurdod Cyllid Cymru, ochr yn ochr â'u Prif Swyddog Gweithredol, Rebecca Godfrey. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â'r gwaith a wnawn i'r awdurdod o ran casglu a rheoli treth gwarediadau tirlenwi, ac yn parhau â'n hymrwymiad i gydweithio'n agos â nhw a chyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig hyn yn genedlaethol ledled Cymru. Mae gennym hefyd strategaeth ar y cyd gydag Awdurdod Cyllid Cymru i nodi ein huchelgeisiau a'n meysydd ar y cyd ar gyfer cydweithio, gan gydnabod y rolau penodol a chwaraewn wrth ddiogelu'r amgylchedd a mynd i'r afael â throseddau gwastraff.

4. Cafodd y Tîm Gweithredol a minnau gyfarfod dilynol gyda'n cymheiriaid yn Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, yn dilyn ein sesiwn wyneb yn wyneb gyda nhw ym mis Ionawr. Trafodwyd sut y gallwn ni ddatblygu dull partneriaeth ar gyfer prosiectau natur mawr ar raddfa tirwedd, a sut y gallwn ni gysylltu pobl yn well â natur a pharatoi cymorth drwy ymgysylltu. Mae'r sesiynau gweithredol ar y cyd hyn yn amhrisiadwy ar gyfer meithrin ein perthynas, rhannu dysgu a chreu cyfleoedd cyffrous i gydweithio'n agosach er budd pobl a natur yng Nghymru.
5. Rydym wedi gweld gwaith yn cychwyn yn gyflym ar gyfer cyflawni argymhellion Adolygiad Rheoleiddio Niwclear 2025, a gynhaliwyd gan John Fingleton. Mewn cysylltiad â sefydlu model rheoleiddiwr arweiniol dros dro (tra'n aros i gomisiwn rheoleiddio niwclear gael ei sefydlu), bûm yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Adolygu Rheoleiddio Niwclear a gynullwyd gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear yn Llundain, ddiwedd mis Mawrth. Mae ein cyfranogiad yn y grŵp hwn yn bwysig o ystyried penderfyniad Llywodraeth y DU i adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn, a'r gwahaniaethau rheoleiddiol rhwng Cymru a Lloegr. Yn y cyfarfod cychwynnol canolbwyntiwyd ar gytuno ar gylch gorchwyl a blaenoriaethau brys i ganolbwyntio arnynt. Ystyriwyd materion ymarferol fel ffyrdd o weithio, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu yn y gweithdy dilynol ym mis Mai, ac yn bresennol yr oedd cydweithwyr a fydd yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa dros Reoli Niwclear a rheoleiddwyr eraill ar y prosiect hwn.
6. Yn ystod mis Ebrill, cefais fy sgwrs reolaidd gyda Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru, a chynhaliwyd ein cyfarfod pwyllgor noddi chwarterol gyda chydweithwyr yn ein tîm noddi o Lywodraeth Cymru. Roedd yr agenda yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar berfformiad, cyllid a llywodraethu, a thrafodaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cam nesaf model hunanasesu Cymru, gan nodi ein hamserlenni ar gyfer cyflawni ym mhob un o'r meysydd ffocws y cytunwyd arnynt.
7. Cyfarfûm hefyd â Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru, i drafod sut y mae ein gwaith yn cefnogi hawliau plant a chenedlaethau'r dyfodol. Rwyf wedi cyflwyno ein swyddogaeth pobl wedi ei chryfhau i dîm y comisiynydd er mwyn iddynt gydweithio ar ein hymrwymiaidau. Rwyf hefyd wedi cael sgysiau pellach gydag Usha Ladwa-Thomas o Brifysgol Caerdydd, a'i thîm, sy'n cefnogi ein gwaith gwrth-hiliaeth ac yn ein helpu i ymgysylltu â chydweithwyr yn y ffordd gywir. Cyfarfûm hefyd â Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i drafod ein hamcan llesiant newydd a'r adborth adeiladol a roddwyd gan ei swyddfa, a fydd yn helpu i wella'r cydymffurfio â geiriad a disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
8. Cyfarfûm â Victoria Bond o'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, i drafod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a rhai materion penodol a godwyd gan ei haelodau. Mae'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad yn hapus i gyd-weithio â ni i ddod o hyd i atebion i broblemau cymhleth. Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf, cyfarfûm ag uwch-arweinwyr Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru ym mis Mawrth i drafod materion cyfredol a sut yr ydym yn cydweithio'n adeiladol â nhw. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan o'm hamserlen gyfarfodydd reolaidd gyda'r rhanddeiliaid pwysig hyn, gan gynnwys yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol (sydd i'w cynnal ym mis Gorffennaf ac Awst yn y drefn honno).
9. Ochr yn ochr â'n Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer De-orllewin Cymru, Huwel Manley, cyfarfûm â Martin Nicholls o Gyngor Abertawe, i drafod y prosiect morlyn

llanw. Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi dod i gytundeb â datblygwr ynni adnewyddadwy ar gyfer prosiect aml-gam a ariennir yn breifat, a fydd yn cychwyn gydag adeiladu fferm solar i bweru rhaglen ehangach o ynni adnewyddadwy, ac yna prosiectau datblygu uchelgeisiol pellach gwerth miliynau o bunnoedd yn yr ardal. Bydd angen cyngor a mewnbwn amgylcheddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer y prosiect wrth iddo fynd rhagddo dros y blynyddoedd i ddod.

10. Rwyf wedi cael cyfarfodydd gyda Roch Cheroux, Prif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru, a Chris Walters o Ofwat. Roedd y cyfarfodydd eang eu cwmpas hyn yn ymdrin â diwygio'r sector dŵr a Phapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar ddyfodol llywodraethu dŵr yng Nghymru, rhagolwg o gyflawni Cynllun Rheoli Asedau 8 (yr wythfed Cyfnod Rheoli Asedau, 2025–2030), a chynllunio ar gyfer Adolygiad Prisiau 2029 (ar gyfer y cyfnod 2030–2035), yn ogystal â materion yn ymwneud â llygredd, adrodd ar ddigwyddiadau a gorfodi.
11. Hefyd ym mis Ebrill, cynhaliwyd diwrnod cynllunio strategol y bwrdd yn ein swyddfa ym Mangor. Roedd hwn yn ddiwrnod prysur, wedi ei lywio gan sesiwn ysgogi a gyflwynwyd gan Alwen Williams o Ambition North Wales, a'n helpodd i ystyried y rôl y gallai CNC ei chwarae wrth gefnogi datblygiad a buddsoddiad diwydiannol ar raddfa fawr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Roedd ein hagenda yn cynnwys cyflwyniad gan Camlas ar y dirwedd wleidyddol a pholisi yn y broses o baratoi ar gyfer Etholiad Senedd Cymru, adborth o'n harchwiliad diweddar o ganfyddiadau rhanddeiliaid ac arolygon canfyddiad eraill, ac adolygiad o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol. Darparodd y diwrnod gyfle gwerthfawr ar gyfer trafodaeth, ac arweiniodd at rai camau gweithredu clir.
12. Un fantais amlwg o ddyddiadur mor brysur yw'r amser yr wyf i wedi gallu ei dreulio yn ein swyddfeydd yn Aberystwyth, Bangor, Trefynwy a Llandarcy, yn ogystal â Pharc Cathays yng Nghaerdydd. Mae hi wastad yn dda sgwrsio â chydweithwyr lleol ym mhob swyddfa, ac os ydw i'n ffodus, mae fy ymweliadau'n cyd-daro â diwrnodau rhannu cinio neu stondin gacennau. Mae cynnal cyfarfodydd ein bwrdd yn ein swyddfeydd ledled Cymru yn caniatáu i ni rannu ein hamseroedd cinio gyda chydweithwyr lleol, a gwn fod fy nghydweithwyr yn yr Adran Addysg, a'n cadeirydd ac aelodau'r bwrdd, hefyd yn gweld y cyfleoedd hyn i sgwrsio a gwrando yn hynod fuddiol. Diolch i gydweithwyr sy'n cymryd yr amser i ymuno â ni ar yr achlysuron hyn.

Diweddariadau strategol

Ymgorffori cyflawni'r cynllun corfforaethol

13. Un o'r prif flaenoriaethau eleni yw ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gryfhau integreiddio cynllunio gweithlu busnes, ariannol a strategol â chynllunio gwasanaethau a lleoedd. Rydym am fod yn gliriach ynglŷn â'r newidiadau hirdymor yr ydym yn eu ceisio ar gyfer natur, hinsawdd, llygredd a sut yr ydym yn gweithio erbyn 2030, a sicrhau bod ein gweithgareddau a'n hadnoddau blynyddol yn cyd-fynd â'r canlyniadau hynny.
14. Bydd cynllun aml-flwyddyn newydd yn pontio ein cynllun corfforaethol a'n cynlluniau busnes blynyddol. Bydd yn nodi'r deilliannau yr ydym yn anelu at eu cyflawni erbyn 2030, yn cynnwys cyfres newydd o fetrigau deilliannau blaenllaw, ac yn ein helpu i ddyrannu adnoddau yn fwy strategol yn dilyn cyhoeddiadau cyllideb bob hydref. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddangos yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni, ac effaith ein gwaith.

Rydym wedi cwblhau cam cyntaf y cynllun aml-flwyddyn gyda diffiniad y canlyniadau a'r metrigau ar gyfer pob un o'r pedwar amcan llesiant, ac rydym bellach yn canolbwyntio ar ddeall y bwch rhwng ble yr ydym nawr a ble yr ydym am fod, a'r camau gweithredu a fydd yn ein harwain yno.

Amcan llesiant ychwanegol yn y cynllun corfforaethol

15. Mae maint a chymhlethdod argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd yn mynd ymhell y tu hwnt i gylch gwaith unrhyw gorff sengl. Rhaid i'r trawsnewidiad sydd o'n blaenau gael ei lunio gan lawer o ddwylo—penderfyniadau rheolwyr tir a chynllunwyr, arloesedd busnesau, ymrwymiad cymunedau, ac arweinyddiaeth y llywodraeth ar bob lefel. Ar gyfer y cynllun corfforaethol hwn, partneriaeth yw'r sylfaen y mae cynnydd gwirioneddol yn dibynnu arni.
16. Rôl CNC yw cyfrannu ein tystiolaeth a'n harbenigedd, a gweithio'n agored, yn barchus ac yn bwrpasol ochr yn ochr â phawb sy'n rhannu'r cyfrifoldeb hwn, i sicrhau newid sy'n deg, yn gyfiawn ac yn sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Er mwyn cryfhau'r rôl hon, rydym wedi cyflwyno'r amcan llesiant newydd, *Sut yr ydym yn gweithio*, i mewn i'n cynllun corfforaethol. Mae'r bwrdd wedi ein helpu i fireinio'r amcan hwn ers y drafodaeth sylweddol ym mis Hydref y llynedd. Wedi ei wreiddio yn ein diben—rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy—a'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddff Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r amcan yn cydnabod bod cyflawni dros Gymru yn gofyn am sefydliad sydd wedi ei gyfarparu, yn hyderus ac yn galluogi. Mae'n ymwneud â llunio CNC fel y gallwn gefnogi partneriaid, cwsmeriaid a chymunedau yn well, gan fuddsoddi yn ein pobl, ein systemau a'n ffyrdd o weithio fel y gallwn wneud penderfyniadau gwell a chyflawni canlyniadau gwell ar gyfer natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd.
17. Yn ganolog i hyn, mae'r profiad rydyn ni'n ei greu i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu: gwrando'n ofalus, ymateb yn deg, a sicrhau bod ein cyngor a'n penderfyniadau'n dod ag eglurder a hyder. Rydym eisiau i bobl deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ym mhob rhyngweithiad â ni, oherwydd rhaid i barch, empathi a phroffesiynoldeb fod yn sail i bopeth a wnawn. Nid yw cryfhau ein sefydliad ar wahân i gyflawni ein hamcanion eraill; dyma sy'n eu gwneud yn gyraeddadwy, nawr ac i'r degawd nesaf. Cyhoeddir cynllun corfforaethol wedi ei ddiweddarau ar ein gwefan erbyn diwedd mis Mai ochr yn ochr â datganiad llesiant diwygiedig.

Ardaloedd cadwraeth arbennig morol a maetholion

18. Yn dilyn cyfarfod terfynol tasglu nitradau y Gweinidogion ddiwedd mis Mawrth, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cynlluniau adfer maetholion dalgylchoedd peilot ar gyfer dalgylchoedd blaenoriaeth Llŵchwr a Chleddau yn Ne Cymru. Bydd y cynlluniau'n darparu llwybrau lleihau maetholion ar gyfer y dalgylchoedd hyn o gamau rheoli maetholion diogel a gynlluniwyd. Gellir defnyddio'r gostyngiadau maetholion a ragwelir i gymhwyso dull integredig o asesu ceisiadau datblygu fel tai, i'w dwyn ymlaen yn erbyn llinell sylfaen sy'n lleihau lefelau maetholion yn y dalgylch.

Ymrwymiad Cadwraeth Eogiaid Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO)

19. Rydym wedi cyflwyno targedau adrodd am ymrwymiad cadwraeth Cymru i NASCO. Mae'r rhain yn nodi sut yr ydym yn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd mewn dŵr croyw, llygredd a dirywiad cynefinoedd. Yn dilyn cyfweiliad dilynol gyda grŵp adolygu NASCO, rydym wedi cael adborth cadarnhaol bod y camau gweithredu yn

cynnwys nodau a chanlyniadau pendant a fydd o fudd i eogiaid yr Iwerydd trwy wella sawl paramedr cynefin. Gofynnwyd i ni roi rhywfaint o eglurder ychwanegol i'r metrigau, a byddwn yn cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r adrodd am ymrwymiad cadwraeth y mis hwn. Rydym hefyd wedi cael adborth cadarnhaol gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn Llywodraeth y DU.

20. Rydym wedi rhannu â NASCO ein dull newydd o flaenoriaethu a chyflawni mesurau sy'n amddiffyn 'cadarnleoedd eogiaid', fel ffordd o flaenoriaethu mesurau i atal y dirywiad yn y rhywogaeth bwysig hon yn ddiwylliannol ac yn ecolegol.

Parc Cenedlaethol Glyndŵr

21. Yn dilyn cyflwyno gorchymyn dynodi i Lywodraeth Cymru, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies AS, ym mis Mawrth y cynhelir ymchwiliad lleol cyhoeddus i ystyried ymhellach greu'r Parc Cenedlaethol Glyndŵr newydd. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei arwain gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), a bydd yn ystyried yn ofalus yr ystod eang o safbwyntiau, pryderon a gwrthwynebiadau i'r gorchymyn dynodi a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hysbysu diweddar. Mae camau nesaf PEDW yn cynnwys sefydlu'r ymchwiliad a nodi unigolyn priodol sydd â'r arbenigedd a'r gallu i'w arwain. Byddwn yn cymryd rhan weithredol yng nghamau nesaf yr ystyriaeth bwysig hon.

Diweddariadau gweithredol

Teifi Fyw

22. Mae prosiect Teifi Fyw: Pobl a Natur Gyda'i Gilydd wedi cael grant o £1.4 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Gyda chyllid cyfatebol gan CNC a Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyfraniadau mewn nwyddau gan bartneriaid cyflawni craidd, mae hyn yn sicrhau incwm prosiect o dros £2 miliwn ar gyfer y cyfnod datblygu dwy flynedd. Yn amodol ar gais Cam 2 llwyddiannus ar ddiwedd y cyfnod datblygu, bydd cyfnod cyflawni pum mlynedd yn dilyn, gan ddod â chyfanswm costau'r prosiect i dros £10 miliwn.
23. Drwy bedwar llinyn cyflawni cydgysylltiedig, nod y prosiect yw ymateb i heriau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth ac iechyd afonydd sy'n dirywio, gan gydnabod arwyddocâd diwylliannol dwfn afon Teifi a rhoi cymunedau lleol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Bydd y cyfnod datblygu yn dwyn ynghyd dystiolaeth wyddonol â hanes lleol, profiad byw a mynegiant creadigol i sicrhau bod y gwaith adfer yn adlewyrchu gwerthoedd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn nalgylch yr afon. Drwy ailgysylltu pobl â natur a pheilotia dulliau newydd o adfer ledled y dalgylch, bydd Teifi Fyw yn mynd ati i drawsnewid dulliau adfer a datblygu model blaenllaw i greu newid parhaol mewn mannau eraill yng Nghymru.
24. Mae'r prosiect yn rhan o raglen dalgylch arddangos ehangach afon Teifi, sydd wedi uno partneriaid yn y dalgylch ers 2023. Fe'i cydlynir gan CNC mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, Mentera (Cyswllt Ffermio), Cyngor Sir

Ceredigion, UNESCO-BRIDGES – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

25. Er na fydd llawer o gyfathrebu cyhoeddus am y prosiect hwn cyn Etholiad Senedd Cymru, byddwn yn cynnal y momentwm ar gyflawni, ac rydym eisoes wedi penodi rheolwr rhaglen. Mae proses 'caniatâd i gychwyn' Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar y gweill, a bydd proses recriwtio ar gyfer naw swydd newydd (pump yn cael eu cyflogi gan CNC) yn dilyn yn fuan. Dylai'r prosiect gychwyn ym mis Gorffennaf.

Uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin

26. Defnyddiwyd y pwerau a roddwyd yn adran 47 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ar wahân yn un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae cyfarfod cyntaf y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus unedig i fod i gael ei gynnal ym mis Medi.
27. Rydym yn croesawu'r dull hwn gan fod gorgyffwrdd sylweddol ym meysydd gwaith blaenoriaeth y ddau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, fel y gwelwyd yn ddiweddar gyda datblygiad cyfunol yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd a gomisiynwyd gan CNC ar gyfer Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ond hefyd digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer pryderon a chyfleoedd lleol. Dylai'r uno hefyd helpu i leihau'r gofynion gweinyddol ar bartneriaid a chefnogi rhai partneriaid traws-byrddau gwasanaethau cyhoeddus eraill i gryfhau eu presenoldeb ac adnoddau ar gyfer gwaith byrddau gwasanaethau cyhoeddus.
28. Er y bu ymgysylltiad â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro i archwilio'r awydd am fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi ei uno, nid oes yr un awydd ar hyn o bryd er bod parodrwydd i archwilio hyn eto yn y dyfodol os bydd amgylchiadau yn newid.

Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog

29. Rydym yn parhau i gefnogi grwpiau gorchwyl a gorffen y Dirprwy Brif Weinidog, a sefydlwyd i archwilio a datblygu opsiynau atodol eraill ar gyfer cyflenwi dŵr ar gyfer Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog. Yn ddiweddar, mae'r grwpiau hyn wedi cael eu mireinio yn un grŵp cyngor technegol, yr ydym yn mynychu ei gyfarfodydd. Ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar opsiynau cyflenwi atodol amgen o gronfa ddŵr Grwyne Fawr (cronfa ddŵr Dŵr Cymru nas defnyddir) a'r posibilrwydd o drosglwyddo tyniadau dŵr o eiddo Dŵr Cymru nas defnyddir ymhellach i lawr yr afon ar afon Lwyd i Glandŵr Cymru. Fodd bynnag, ni fydd yr opsiynau hyn ar waith ar gyfer yr haf hwn.
30. Er bod trefniadau ariannu dros dro wedi eu sefydlu i gynorthwyo'r trefniadau cyflenwi dros dro presennol, gyda gollyngiadau o Gronfa Ddŵr Wysg ar gyfer cyfnodau o lif isel yn yr afon, mae pwysigrwydd gwelliannau i'r seilwaith a rheoli dŵr yn system y camlesi yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer cydymffurfio â thrwyddedau a chynnal lefelau dŵr y gamlas. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Glandŵr Cymru yn uniongyrchol, a thrwy'r grŵp cyngor technegol ar y materion hyn.

Abertawe yn ennill statws Dinas Caru Natur

31. Mae Abertawe wedi cael ei chydnabod yn swyddogol fel Dinas Caru Natur, gan ymuno â rhwydwaith rhyngwladol sy'n cynnwys San Francisco, Singapore, Vancouver ac Oslo. Mae'r dynodiad yn dilyn cais ar y cyd gan CNC, Cyngor Abertawe a Phrifysgol Abertawe, sy'n adlewyrchu gwaith partneriaeth hirdymor i gryfhau seilwaith gwyrdd a glas, cefnogi bioamrywiaeth, a gwella llesiant drwy ymgorffori natur mewn dylunio trefol. Fel rhan o'r Rhwydwaith Dinasoedd Caru Natur byd-eang, bydd Abertawe yn rhannu dysgu ac arfer gorau â dinasoedd ledled y byd, tra hefyd yn arddangos arloesedd ac arweinyddiaeth leol mewn adfywio trefol dan arweiniad natur. Mae'r statws yn tynnu sylw at ymrwymiad y ddinas i integreiddio natur i fywyd trefol bob dydd i drigolion, busnesau ac ymwelwyr.
32. Ers 2020, mae mwy na hectar o doeau a waliau gwyrdd wedi eu gosod yng nghanol y ddinas, gyda llawer mwy wedi eu cynllunio. Mae'r gosodiadau hyn yn dal dŵr glaw, yn lleihau llifogydd arwyneb, yn creu cynefin ar gyfer peillwyr ac infertebratau, ac yn gwella perfformiad adeiladau trwy oeri ac inswleiddio. Rydym yn cefnogi'r dull hwn trwy brosiectau fel yr adeilad Biom sydd wedi ei gynllunio ar gyfer caru natur a'r rhaglen ymchwil REPAIR (Ôl-osod ar gyfer y Dyfodol), a ariannwyd gan £3 miliwn gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae dod yn Ddinas Caru Natur yn cydnabod asedau naturiol Abertawe, ac yn nodi cynnydd pellach ar adferiad natur, gweithredu ar yr hinsawdd, a chymunedau iachach.

Digwyddiad Fferm Wynt Brechfa

33. Yn dilyn colli llafn tyrbîn o un o'r tyrbînau gwynt yn Fferm Wynt Gorllewin Brechfa, mae 27 o'r 28 tyrbîn ar y safle bellach yn ôl yn gweithredu'n llawn. Cynhaliodd RWE, gweithredwr y fferm wynt, archwiliadau o bob tyrbîn i safon y diwydiant, ac yn unol ag argymhelliad y gwneuthurwr offer gwreiddiol, cyn dod â'r tyrbînau yn ôl i weithredu'n llawn. Mae'r gweithredwr hefyd bellach yn blaenoriaethu gosod system fonitro ar bob tyrbîn i sicrhau nad yw problem debyg yn codi yn y dyfodol.
34. Bydd RWE yn parhau i archwilio'r tyrbînau yn rheolaidd bob tri mis nes bod y system fonitro hon wedi ei gosod. Mae'r tîm Rheoli Tir lleol yn parhau i gyfathrebu'n agos ag RWE er mwyn helpu i ddeall amserlenni ar gyfer cyflwyno'r system fonitro a pharhad yr arolygiadau bob tri mis. Cynhelir adolygiad digwyddiad yn fewnol hefyd, a bydd y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu â'r swyddogion cyswllt masnachol a'r timau Rheoli Tir sy'n rheoli safleoedd tebyg ar ystad coetir Llywodraeth Cymru.

Ymgyrch beilot cyfathrebu'r perygl o lifogydd

35. Mae ymgyrch gyfathrebu beilot wedi digwydd i hybu ymwybyddiaeth o berygl o lifogydd ar draws dalgyrch afon Taf a De Canol Cymru yn ehangach. Gan ddefnyddio cymysgedd o sianeli digidol, sain a chymunedol, nod y prosiect oedd cyrraedd cymaint o bobl â phosibl a all fod yn agored i lifogydd. Roedd y dull aml-sianel yn cynnwys hysbysebion â thâl wedi eu targedu ar Meta a LinkedIn, a negeseuon wedi eu teilwra mewn amrywiaeth o ieithoedd cymunedol, fel Arabeg, Pwyleg, Bengaleg a Phortiwgaleg, gan adlewyrchu'r boblogaeth amrywiol ar draws y rhanbarth.
36. Roedd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys hysbyseb sain ddwyieithog gan Digital Audio Exchange (DAX) yn para am 30 eiliad, a rannwyd ar draws llwyfannau radio a phodlediadau ochr yn ochr â phostiadau gan bartneriaid allweddol yn cynnwys Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Darparwyd adnoddau

amlieithog i gynghorau gwirfoddol sirol lleol i'w rhannu trwy eu rhwydweithiau eu hunain. Bydd y cynllun peilot, a redodd tan ddiwedd mis Mawrth, yn cael ei werthuso'n llawn gyda chanfyddiadau ac adnoddau'n cael eu rhannu unwaith y byddant ar gael.

Diweddariadau mewnol

Achrediad Cyflogwyr Balch newydd

37. Rydym wedi cael ein hachredu fel cyflogwr cyflawn yng Nghynllun Achredu Cyflogwyr Balch, wedi ein hasesu yn erbyn meini prawf ar gyfer ein harweinyddiaeth, polisïau a rhwydwaith staff mewn perthynas â chynnwys y gymuned LHDT+. Mae cyflawni'r statws hwn yn dangos y pwysigrwydd rydyn ni, fel sefydliad, yn ei roi ar gynhwysiant, a'n bod ni wedi gwneud dechrau cryf tuag at gynhwysiant LHDT+ yn ein gweithle. Rydym wedi gosod sylfeini cadarn, ac yn cymryd camau ystyrlon tuag at fod yn weithle cynhwysol. Dylem ni oll fod yn hynod falch o'r cyflawniad hwn.

Cyfathrebu

Cyfathrebu corfforaethol

38. Yn ystod y cyfnod hwn, croesawyd aelodau newydd y bwrdd, sef Sarah Albon a Mair Gwynant, a nodwyd ymadawïad yr Athro Steve Ormerod a Karen Balmer, gan gydnabod eu cyfraniadau drwy gyfathrebu mewnol ac allanol.
39. Ym mis Mawrth, cefnogwyd ymgysylltiad ar y Strategaeth Twf a Gwerth Cynaliadwy ddrafft, gydag adborth adeiladol yn llywio ei datblygiad parhaus. Gwnaethom hefyd gyflwyno cyfathrebiadau ar gyfer amrywiaeth o brosiectau sy'n seiliedig ar le, gan gynnwys adfer afonydd yng Nghaerdydd, adfer ar ôl stormydd ym Mrechfa, ac ymgynghori ar gynlluniau drafft adnoddau coedwig ar gyfer De Gwydir, Ynysowen a Chwm Cynon. Buom yn cydweithio'n rhagweithiol â'r cyfryngau i ddarparu sylwebaeth awdurdodol ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau, gan gynnwys rhaglen BBC Radio Wales ar lifogydd yn Nhrefynwy, gan dynnu sylw at effeithiau newid hinsawdd, cyngor ymarferol i drigolion, a'n hymateb gweithredol.
40. Cyn ei weithredu, codwyd ymwybyddiaeth o'r system barcio newydd sy'n adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig ym Mwlich Nant yr Arian, Coed y Brenin a Niwbwrch, gan gydweithio'n agos â thimau gwasanaeth cwsmeriaid a thimau sy'n seiliedig ar leoedd.
41. Ym mis Ebrill, cyflwynwyd ymgyrch ymweld cyfrifol, ochr yn ochr â chyngor diogelwch nofio mewn dŵr agored tymhorol, a negeseuon penodol i'r safle ar waith gwella, a chyfyngiadau mynediad dros dro ym Mro'r Sgydau. Drwy gydol y cyfnod, codwyd ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth newydd a deddfwriaeth sydd ar ddod, gan gynnwys Bil yr Amgylchedd (Cymru), deddfwriaeth cŵn (diogelu da byw) a gorchymyn yr afancod (Cymru). Gwnaethom hefyd barhau i ddarparu cyfathrebiadau adweithiol lle bo angen, gan gynnwys cyfyngiadau mynediad sy'n gysylltiedig â diogelwch ym Mrechfa yn dilyn datgysylltu llafn tyrbîn gwynt, ac ymatebion i ddigwyddiadau llygredd a thipio anghyfreithlon.

Cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol

42. Mae newidiadau i gyfathrebu mewnol sydd â'r nod o symleiddio gweithgaredd a lleihau'r baich ar reolwyr llinell a thimau yn profi'n effeithiol, gydag adborth cadarnhaol ar welliannau i ddiweddariad misol y rheolwyr. Rydym yn parhau i weithredu camau gweithredu o'n hadolygiad diweddar, gan gryfhau cynllunio ymlaen llaw a mireinio sianeli i gefnogi timau'n well wrth iddynt ganolbwyntio ar gyflawni.
43. Rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer y cyhoeddiad sydd ar ddod ynghylch yr amcan llesiant newydd (a drafodir ym mharagraff 16 uchod), gan alinio hyn â gweithgaredd ymgysylltu ehangach sy'n gysylltiedig â'r arolwg Ein Llais diwethaf, yr adolygiad o wasanaethau galluogi, a'r gwersi a ddysgwyd yn Achos dros Newid. Elfen allweddol yw datblygu 'canolfan' ganolog i arddangos ymyriadau cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r amcan newydd, gan gefnogi gwelliannau ym mhrofiad gweithwyr, cymhelliant a chynhyrchiant.

Materion allanol a materion cyhoeddus

44. Mae'r tîm Materion Allanol wedi parhau i wneud cynnydd cyson o ran gosod y sylfeini ar gyfer ein dull gweithredu yn y dyfodol. Yn ogystal â chefnogi'r digwyddiad 'Sgyrsiau â CNC' cyntaf, a roddodd fewnwelediad gwerthfawr i sut y mae ein gwaith yn cael ei dderbyn, rydym hefyd wedi cael canfyddiadau'r ymchwil i ganfyddiadau rhanddeiliaid a'r cyhoedd, ac wedi dechrau rhannu'r rhain gyda'r Tîm Gweithredol a'r bwrdd, gyda chynlluniau i gyflwyno hyn yn ehangach ar draws y sefydliad.
45. Rydym wedi llwyddo i gaffael system rheoli cydberthynasau â rhanddeiliaid, ac wedi dechrau ei hymgorffori, tra bod y pecyn cymorth a'r templedi rhanddeiliaid hefyd bron â chael eu cwblhau. Mae mapio rhanddeiliaid yn parhau i gael ei fireinio ac mae'n cael ei gysylltu fwyfwy â'n sefydliadau busnes. Rydym wedi gweithio gyda Materion Cyhoeddus i ddatblygu rhaglen fwy rhagweithiol o ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd cyn yr etholiad, gan gynnwys cynllunio ar gyfer aelodau sy'n ymadael.

Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

46. Canolbwyntiodd cyfathrebiadau yn ystod mis Mawrth ac Ebrill ar feithrin dealltwriaeth o risgiau hinsawdd a rôl CNC mewn addasu hirdymor, yn enwedig mewn cymunedau arfordirol a chymunedau sy'n dueddol o gael llifogydd. Roedd lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun rheoli perygl o lifogydd llanw arfaethedig ar gyfer Aberteifi yn gyfle allweddol i esbonio'r sylfaen dystiolaeth, amlinellu dulliau posibl, ac annog ymgysylltiad cymunedol cynnar. Atgyfnerthodd y sylw ein hymrwymiad i weithio gyda chymunedau a phartneriaid i gynllunio ar gyfer perygl o lifogydd yn y dyfodol.
47. Gwnaethom hefyd gefnogi cyhoeddi adroddiad yn tynnu sylw at rôl cynefinoedd arfordirol iach wrth leihau'r perygl o lifogydd, gan ddangos sut y gall atebion sy'n seiliedig ar natur wella gwydnwch ochr yn ochr ag amddiffynfeydd llifogydd traddodiadol, a chryfhau ein dylanwad mewn trafodaethau polisi a buddsoddi ehangach. Dangosodd adrodd straeon gweithredol, gan gynnwys gwaith gaeaf yn cefnogi adferiad cynefinoedd yn y gwanwyn ar Skomer, sut y mae ymyriadau cynlluniedig yn amddiffyn natur wrth leihau effeithiau hirdymor ar yr hinsawdd.

Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

48. Roedd y cyfathrebiadau yn cefnogi atal llygredd a gorfodi drwy hyrwyddo cydymffurfedd, tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus. Roedd negeseuon ataliol yn annog tiffeddianwyr a chontractwyr i geisio cyngor cyn gweithio mewn afonydd, gan atgyfnerthu pwysigrwydd gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf. Gwnaethom hefyd egluro gweithgaredd atal llygredd cymhleth mewn amgylcheddau sensitif, gan gynnwys defnyddio hofrenyddion i ddiogelu cynefinoedd prin yn ystod gwaith hanfodol, gan helpu i feithrin dealltwriaeth y cyhoedd o wneud penderfyniadau gweithredol. Roedd gorfodi yn nodwedd gref, gyda chyfathrebiadau yn tynnu sylw at gamau ar dipio anghyfreithlon trwy Taclo Tipio Cymru, gweithgaredd cludo gwastraff anghyfreithlon yn dilyn ystadegau Llywodraeth Cymru, ac erlyniadau am bysgota cocos yn anghyfreithlon.

Mae Natur yn Gwella

49. Gwnaethon ni arddangos camau ymarferol i amddiffyn ac adfer natur, ochr yn ochr â'r partneriaethau a'r gorfodi y mae eu hangen i gyflawni canlyniadau. Trwy gyfrwng sylw i ddringwyr arbenigol yn tynnu rhododendron goresgynnol oddi ar glogwyni arfordirol yng Ngogledd Cymru yn y cyfryngau, dangoswyd maint yr her a'r dulliau arloesol y mae eu hangen. Gwnaethon ni hyrwyddo prosiectau cydweithredol i warchod cynefinoedd a rhywogaethau sensitif, gan gynnwys astudiaeth bywyd gwyllt arfordirol i ddiogelu poblogaethau adar agored i niwed, a thynnu sylw at gamau gorfodi i warchod safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) Magwyr a Gwndy. Amlygodd adrodd straeon cadarnhaol arbenigedd CNC, gan gynnwys cydnabod cydweithwyr yn Neorfa Cynrig â Gwobr Dewi Sant, dathlu rhywogaethau brodorol Cymru, cefnogaeth i lansio'r llwybr coedwig cenedlaethol, a chynnwys yn nodi Diwrnod Rhyngwladol Coedwigoedd, gan dynnu sylw at werth amgylcheddol ac economaidd coedwigoedd.

Crynodeb o gwynion, canmoliaeth a gohebiaeth

50. Ym mis Mawrth, deliodd y Tîm Gohebiaeth Canolog â 49 o eitemau o ohebiaeth, a oedd yn gynydd o 18 eitem ar y mis blaenorol. Atebwyd pob un o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth o 10 neu 15 diwrnod gwaith, gyda dim ond un yn cymryd y 15 diwrnod llawn oherwydd yr eglurhad y gofynnwyd amdano gan y cwsmer. Ymatebwyd i gyfanswm o 90% o fewn 10 diwrnod gwaith, gyda 52% o'r rheini'n ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith neu lai (cynnydd o 21% ar y mis blaenorol). Mae'r tîm wedi llwyddo i ymdopi â chynnydd yn y galw, ac ar yr un pryd wedi gwella perfformiad.

51. Daeth gohebiaeth i law oddi wrth amrywiaeth o bobl a sefydliadau. Y prif bynciau ar gyfer mis Mawrth oedd ein gwaith o ran rheoleiddio Kronospan (39%), ansawdd dŵr a chydymffurfedd cwmnïau dŵr (14%), canolfannau ymwelwyr a pharcio (12%), a phryderon diogelwch y cyhoedd ynghylch Fferm Wynt Brechfa (4%).

52. Cafwyd 46 o geisiadau am wybodaeth amgylcheddol newydd yn ystod y mis, ac anfonwyd 39 o ymatebion wedi eu cwblhau i geisiadau a ddaeth i law yn ystod y misoedd blaenorol. Rydym yn gweld cynnydd bach yn nifer y ceisiadau o fis i fis, ond rydym yn dal i gynnal cyfradd ymateb ardderchog o 93% o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth 20 diwrnod gwaith a osodwyd yn neddfwriaeth yr amgylchedd gwybodaeth amgylcheddol.

53. Agorwyd 16 cwyn Cam 1 newydd ym mis Mawrth, caewyd 23, ac ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth. Mae dwy gŵyn Cam 2 yn parhau, ac nid oes unrhyw rai newydd wedi dod i law yn y cyfnod hwn. Cafwyd tri hysbysiad penderfynu gan yr Ombwdsmon yn ystod y mis heb i'r un ohonynt gael eu cadarnhau, a'r penderfyniad oedd 'peidio ag ymchwilio,' sy'n tystio ein bod yn gweithredu eu canllawiau ar drin cwynion yn gywir. Mae'n bleser nodi i ni gael saith canmoliaeth i'r sefydliad a/neu gydweithwyr unigol ym mis Mawrth.

Edrych ymlaen

- Dydd Mawrth 26 Mai – Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (cyfrifon)
- Dydd Iau 4 Mehefin – Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Dydd Iau 11 Mehefin – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig
- Dydd Mercher 17 Mehefin – Galwad i'r bwrdd roi'r wybodaeth ddiweddaraf
- Dydd Mercher 24 Mehefin – Pwyllgor y Bobl
- Dydd Iau 2 Gorffennaf – Y Pwyllgor Cyllid
- Dydd Mercher 8 Gorffennaf – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mawrth 14 Gorffennaf – Cyfarfod Arbennig o'r Bwrdd (adroddiad blynyddol a chyfrifon)
- Dydd Llun 20 Gorffennaf–Dydd Iau 23 Gorffennaf – Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru
- Dydd Mercher 29 Gorffennaf – Cyfarfod mis Gorffennaf y bwrdd

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	20 a 21 Mai 2026
Teitl y papur:	Adroddiad y Bwrdd Rheoli Perygl Llifogydd
Cyfeirnod y papur:	26-05-B02
Noddwyd y papur gan:	Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Diben y papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2026.

Cefndir

1. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion y dylid, ym marn Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd, eu dwyn i sylw'r bwrdd cyfan yn dilyn cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2026.
2. I gael rhagor o fanylion, gall pob aelod o'r bwrdd weld agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y pwyllgor drwy'r porth Diligent.

Yr wybodaeth ddiweddaraf

Yr wybodaeth ddiweddaraf am reoli perygl llifogydd

3. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon tri mis y Swyddfa Dywydd, y gwaith glanhau sy'n mynd rhagddo ar ôl llifogydd y gaeaf, gwaith paratoi ar gyfer sychder a thanau gwyllt, ac adolygiad barnwrol Tan Lan. Tynnwyd sylw at y gwaith a wneir o ran rheoli dalgylchoedd integredig ynghyd â'r gwaith a wneir ar gynlluniau buddsoddi strategol gyda phwyslais ar ganlyniadau. Roedd y gwaith hwn yn cyd-fynd â datblygu cynllunio amflwyddyn ar draws CNC.
4. Bu'r pwyllgor yn trafod effeithiau tymor aelodau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn dod i ben, gyda'r gwaith wedi ei arafu neu wedi ei oedi. Trafodwyd hefyd a oedd

Llifogydd wedi addasu model economi gymysg, gan nodi pa mor bwysig yw cael staff craidd yn eu lle. Yn dilyn ymholiad, cadarnhawyd bod cysylltiadau wedi eu gwneud ar draws CNC ar gyfer y gwaith cynllunio buddsoddiad strategol.

Yr wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

5. Cyflwynwyd trosolwg o gyllideb diwedd blwyddyn Rhaglen Gyfalaf Llifogydd 2025–2026, yn ogystal â throsolwg o raglen 2026–2027. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau Llanandras, Chapel Reen, Aberteifi ac Ynysgynwraidd, ac amlinellwyd y prif risgiau gan gynnwys problemau o ran adnoddau staff.
6. Bu'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn trafod y risgiau i gyflawni'r Prosiect Amnewid Fflyd, ac awgrymodd ddull cymysg gan ddefnyddio lesio a datrysiadau dros dro. Trafodwyd y problemau o ran adnoddau staff hefyd, yn ogystal ag a fyddai angen i'r cymysgedd sgiliau yn y tîm fod yn wahanol o ystyried y newid o gynllunio i adeiladu yn achos nifer o brosiectau.

Cymunedau mwyaf mewn perygl a chanlyniadau

7. Cyflwynwyd y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl, gan gynnwys y rhestr o ba ardaloedd oedd yn y rhaglen, neu yn y broses ddeng mlynedd, a'i defnydd ar gyfer blaenoriaethu ymhlith ystyriaethau eraill.
8. Teimlai'r pwyllgor yn sicr fod mwyafrif helaeth o'r ardaloedd yn y gofrestr dan ystyriaeth gan naill ai CNC neu lywodraeth leol, a chodwyd pryder nad oedd cysylltiad clir rhyngddyn nhw a chynllunio dalgyloedd. Fodd bynnag, esboniwyd y byddai hyn yn rhan o'r cam nesaf yn y broses o gynllunio'r prosiect. Trafodwyd yr angen am ddull cydgysylltiedig ar draws gwahanol lefelau o lywodraeth, cymunedau ac elusennau.

Sut y mae buddion yn cael eu hasesu

9. Eglurwyd cyd-destun y gyfradd ddisgownt a orfodwyd gan Drysorlys y DU i bennu'r dadansoddiad cymhareb cost a budd, gan gynnwys y problemau o ran ei defnyddio, a'r ffaith nad ydyw'n gydnaws â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyflwynwyd y fframwaith yr oedd yn rhaid i CNC ei ddilyn, gan gynnwys yr achos busnes pum cam a'r achos economaidd. Tynnwyd sylw at y diweddariad i'r adolygiad o'r Llyfr Gwyrdd, a chyflwynwyd pwyntiau trafod ar sut y mae CNC yn asesu buddion.
10. Awgrymodd y pwyllgor y dylid adolygu'r disgownt yng nghyd-destun Cymru, ond byddai angen ystyried yn ofalus sut i gyflwyno'r cyfiawnhad dros newid. Awgrymwyd mapio'r dull yn erbyn parodrwydd CNC i dderbyn risg, yn ogystal â defnyddio metrigau datblygiad cymdeithasol. Awgrymwyd y dylai CNC ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru gan gynghori y dylai adolygu ei chanllawiau. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Tîm Gweithredol edrych ar y ffordd orau o wneud hyn.

Rhagolwg a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer gwaith y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

11. Eglurwyd y cyd-destun y tu ôl i ailstrwythuro'r pwyllgor, a'r nod o ddarparu proses graffu mwy cyfannol ar draws y broses o gyflwyno'r amcanion llesiant, yn ogystal ag ymdrin â bylchau mewn goruchwyliaeth. Roedd y cylch gorchwyl ar draws yr holl bwyllgorau yn cael ei adolygu, ac roedd agendâu enghreifftiol ar gyfer y Pwyllgor Cyflawni Strategol newydd arfaethedig yn cael eu datblygu i egluro rolau a chyfrifoldebau.
12. Cododd y pwyllgor gwestiynau ynghylch cynnal proses graffu effeithiol ar reoli perygl llifogydd, ac a fyddai goruchwyliaeth o weithgareddau rheoleiddio o fewn y strwythur newydd. Mynegodd aelodau'r pwyllgor yr angen am fwy o eglurder a chyfranogiad yn y broses.

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	20 Mai 2026
Teitl y papur:	Adroddiad Perfformiad Cyllid
Cyfeirnod y papur:	26-05-B03
Noddwyd y papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Paratowyd y papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynwyd y papur gan:	Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Diben y papur:	Cymeradwyaeth (newid yn y rhagolygon ariannol) / trafodaeth (perfformiad ariannol)
Crynodeb	<p>Cymeradwyo:</p> <p>Newid yn y rhagolwg diweddaraf o £293 miliwn i £294.2 miliwn.</p> <p>Craffu ar y canlynol:</p> <p>Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.</p>

Cefndir

1. Mae'r adroddiad perfformiad cyllid yn rhoi manylion am gynnydd ar draws y gwahanol fathau o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r prif negeseuon mewn perthynas â'r canlynol:
 - Newid i ragolwg y gyllideb o'i gymharu â'r rhagolwg blaenorol a gymeradwywyd (mis Ionawr).
 - Perfformiad hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

Prif bwyntiau

2. Yn gyffredinol, roedd hwn yn alldro cadarnhaol o ran perfformiad y gyllideb. Cafwyd llawer o enghreifftiau ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru o reoli cyllidebau a rhaglenni'n dda iawn, yn enwedig o ystyried yr heriau a gawsom drwy gydol y flwyddyn o ran y gweithlu. Ar y cyfan, llwyddwyd i hysbysu Llywodraeth Cymru

